**EITEM**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR CYNLLUNIO** |
| **DYDDIAD** | **16 Ionawr 2017** |
| **TEITL** | **Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Gwaharddiad a Chyfyngiad Llwytho a Dadlwytho Nwyddau) (Y Maes yn Nhref Caernarfon)** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Yn dilyn ystyriaeth o'r sylwadau a'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd, i fynd ati i gwblhau'r broses statudol o gyflwyno'r Gwaharddiad a'r Cyfyngiad ar Lwytho a Dadlwytho Nwyddau ar y Maes yn Nhref Caernarfon. |
| **AWDUR** | Dafydd Wyn Williams<br>Pennaeth Adran Rheoleiddio |
| **ARGYMHELLIAD** | **Bod y Pwyllgor yn cefnogi cyflwyno Gwaharddiad a Chyfyngiad ar Lwytho a Dadlwytho Nwyddau ar y Maes yn Nhref Caernarfon.** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Cynghorydd Dafydd Meurig** |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Cafodd y Maes yng Nghaernarfon ei ailwampio yn 2009 fel rhan o gynllun adfywio gwerth £2.5m. Rhan ganolog o'r dyluniad oedd tynnu'r rhwystrau rhwng trafnidiaeth a cherddwyr er mwyn creu ardal o 'ofod cyfun'; cysyniad ble mae gyrwyr yn cael eu hannog i fod yn fwy ystyriol o gerddwyr a defnyddwyr ffordd eraill. Dyma'r trefniant cyntaf o'i fath yng Nghymru. Ers ei sefydlu, mae pryderon diogelwch wedi codi parthed y cysyniad hwn, yn arbennig o ran parcio dros bob man yn yr ardal.

1.2 Ar hyn o bryd, mae'r cyfyngiad presennol ar y Maes, Caernarfon, am Glirffordd 24 awr, sy'n golygu na chaiff unrhyw gerbydau barcio nac aros ar unrhyw adeg. Fodd bynnag, mae safleoedd parcio dynodedig ar gyfer pobl anabl a thacsis yn ogystal ag ardal gollwng a chodi i fysiau.

1.3 Yn ddiweddar, mae pryderon wedi codi ynglŷn a chanfyddiad y cyhoedd o'r cyfyngiad presennol. Mae sylwadau a dderbyniwyd gan y Gwasanaeth Trafnidiaeth yn awgrymu bod rhai pobl yn credu bod y cyfyngiad cyfredol yn aneglur gyda rhai pobl ddim yn deall ystyr yr arwyddion presennol.

1.4 Yn 2016, adolygwyd y cyfyngiad presennol ar y Maes er mwyn archwilio a oedd dewis arall ar gael i wella'r sefyllfa. Roedd hyn yn cydredeg â chyhoeddi'r 'Rheoliadau Arwyddion Traffig a Chyfarwyddiadau Cyffredinol 2016' oedd yn disodli Rheoliadau 2002. Casgliad yr adolygiad hwnnw oedd gweithredu cyfyngiad parcio a adwaenir fel "Parth Cyfyngedig" a fyddai mewn grym rhwng 8.30am a 6pm.

1.5 Ym mis Mai 2016, anfonwyd llythyr at nifer o gyrff gwahanol h.y. y Gwasanaethau Brys, y Road Haulage Association, y Freight Transport Association, y Gwasanaeth Post, y Cyngor Tref, ac Aelodau Lleol yn gofyn am eu barn ar y cynnig. Ehangwyd yr ymgynghoriad i gynnwys busnesau a phreswylwyr y Maes.

1.6 Yn dilyn y cam ymgysylltu cyntaf, dim ond un sylwad a dderbyniwyd, sef gan y Cyngor Tref yn gofyn i amser y Cyfyngiad gael ei ymestyn hyd 7pm, a bod cyflenwad digonol o arwyddion yn cael eu codi yn nodi'r Cyfyngiad ar y Maes. Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth arall ar yr adeg yma.

1.7 Ym mis Awst 2016 cychwynnwyd ar ail gam ymgynghori ble paratowyd Gorchymyn Drafft ac ymddangosodd rhybudd yn y wasg leol yn hysbysu'r cyhoedd o fwriad y Cyngor ar gyfer y maes, gyda diwygiad i amseroedd y Parth Cyfyngedig oedd nawr yn dweud, rhwng 8.30am a **7pm.**

1.8 Yn ystod y cyfnod ymgysylltu, derbyniwyd cyfanswm o saith gwrthwynebiad - mae copïau o'r rhain wedi eu cynnwys yn Atodiad B.

1.9 Y prif bryderon a fynegwyd gan y gwrthwynebwyr oedd amseroedd y cyfyngiadau. Fe’i hystyriwyd yn annigonol ar gyfer danfon cynnyrch at fusnesau ar y Maes.

1.10 Er mwyn lliniaru rhai o'r pryderon hyn, adolygodd y Gwasanaeth Trafnidiaeth y cyfyngiad gan ei ddiwygio fel a ganlyn:-

1. Gwahardd cerbydau rhag aros, llwytho/dadlwytho rhwng**10am** a 7pm.
2. Safle parcio ychwanegol i’r anabl y tu allan i'r Fferyllfa.
3. Cyfyngiad amser ar bob safle anabl i gynyddu o 90 munud i uchafswm o 3 awr.

1.11 Yn dilyn y cynigion diwygiedig mae pawb ond un wedi dweud ar lafar a dau wedi ysgrifennu i gadarnhau'r diwygiad a, thrwy hynny, dynnu eu gwrthwynebiad yn ôl. Gweler Atodiad C: - mae un gwrthwynebiad yn parhau.

## 2. Crynodeb/Amserlen

| | |
|---|---|
| **23 Mai 2016** | Cam ymgysylltu cyntaf - llythyr wedi ei anfon at ymgynghorai statudol, busnesau, a phreswylwyr yn y Maes. |
| **08 Mehefin 2016** | Derbyniwyd un ymateb - Gweler Atodiad A. |
| **05 Awst 2016** | Paratowyd 'Gorchymyn Rheolaeth Trafnidiaeth' o dan 'Ddeddf Rheoli Trafnidiaeth Ffyrdd 1984' - ac ymddangosodd rhybudd yn y wasg leol yn hysbysu'r cyhoedd o fwriad y Cyngor i newid y cyfyngiad ar gyfer y Maes, Caernarfon, gan wahodd aelodau'r cyhoedd i wneud sylwadau pe dymunent. |
| **Mis Awst a mis Medi 2016** | Derbyniwyd saith gwrthwynebiad - gweler Atodiad B |
| **Mis Medi 2016** | Fe wnaeth swyddog o'r Gwasanaeth Drafnidiaeth gwrdd ag ac/neu ohebu gyda phob un gwrthwynebydd. |
| **Tachwedd 2016** | Gohebiaeth wedi ei anfon at wrthwynebwyr yn eu hysbysu bod y Cyngor wedi diwygio'r cynnig. |
| **Rhagfyr 2016** | Chwech o'r saith gwrthwynebydd wedi gohebu neu wedi lleisio eu cefnogaeth o'r cynnig newydd. Fodd bynnag, gan fod un gwrthwynebiad yn parhau, penderfynodd y Gwasanaeth Trafnidiaeth drosglwyddo'r mater i'r Pwyllgor Cynllunio. |

## 3. Argymhelliad

Mae'r Gwasanaeth Trafnidiaeth yn argymell bod y Pwyllgor yn cefnogi cyflwyno'r cyfyngiadau aros diwygiedig ar y Maes, Caernarfon, sef:

1. Gwahardd cerbydau rhag aros, llwytho/dadlwytho rhwng 10am a 7pm
2. Safle parcio ychwanegol i’r anabl y tu allan i'r Fferyllfa.
3. Cyfyngiad amser ar bob safle parcio i'r anabl ar y Maes i gynyddu o 90 munud i uchafswm o 3 awr.